CYFARFOD COMISIWN FFINIAU LLYWODRAETH LEOL I GYMRU A GYNHALIWYD AR 9 MEDI 2008 YN NHŶ CARADOG, CAERDYDD

Comisiynwyr	Ysgrifenyddiaeth
Mrs. S G Smith (Cadeirydd)	Mr. E H Lewis (Ysgrifennydd)
Mr P J Wood (Dirprwy Gadeirydd)	Mr. S R Halsall
Y Parch. H M Davies	Mr. D Carr
	Mr. R Handscomb
	Mrs. Abbie Prescott-Bird

Croesawodd yr aelodau Mr Handscomb a oedd newydd ymuno ag Ysgrifenyddiaeth y Comisiwn.

1. DATGANIAD BUDDIANNAU

1.1 Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau newydd.

1.2 Dywedodd yr Ysgrifennydd ei fod yn ddiweddar wedi dod yn ymwybodol ei fod yn arfer yng nghomisiynau ffiniau eraill yn y DU i aelodau a staff ddatgan fod yr ardal eu bod yn byw ynddi yn fuddiant a pheidio â chymryd rhan mewn unrhyw drafodaethau neu benderfyniadau a oedd yn ymwneud â'r ardaloedd hynny. Roedd y Comisiwn o'r farn gan nad oedd aelodau staff yr Ysgrifenyddiaeth ond yn rhoi gwybodaeth i Aelodau yn unig ac nid oeddent yn cymryd rhan yn y broses o wneud penderfyniadau, efallai nad oedd angen iddynt ddatgan buddiant. Y dewisiadau posibl o ran cynnwys Aelodau mewn arolygon a oedd yn cynnwys eu hardaloedd preswyl oedd:

- Datgan buddiant ond parhau i gymryd rhan yn y drafodaeth;
- Datgan buddiant a pheidio â chymryd rhan yn y drafodaeth ond bod yn bresennol yn ystod y drafodaeth; neu
- Datgan buddiant a mynd allan o ystafell y cyfarfod tra bod yr ardal yn cael ei thrafod.

Roedd y Comisiwn o'r farn y gallai'r polisi hwn fod yn broblematig oni bai y'i cyfyngir i'r gymuned lle roedd yr aelod yn byw yn hytrach na holl ardal yr awdurdod lleol.

1.3 **Cytunwyd** y byddai'r Ysgrifennydd yn ymchwilio'r arfer gorau o ran buddiannau aelodau a chyflwyno ei ganfyddiadau mewn Cyfarfod Comisiwn yn y dyfodol.

2. COFNODION CYFARFOD Y COMISIWN A GYNHALIWYD AR 18 AWST 2008

2.1 Cytunwyd ar y rhain yn amodol ar gynnwys y newidiadau y gofynnwyd amdanynt.

3. MATERION YN CODI

Arolwg Cymunedol Môn

3.1 Hysbysodd yr Ysgrifennydd y cyfarfod ei fod wedi ysgrifennu at Ganolfan Bedwyr i ddiolch iddynt am eu cymorth, fel y cytunwyd arno yn y cyfarfod diwethaf.

Trosglwyddo system TG y Comisiwn

3.2 Rhoddwyd gwybod i'r Comisiynwyr fod trosglwyddo'r system TG gan Merlin bellach wedi'i gwblhau ac ymddengys ei fod yn foddhaol.

Arolwg Cymunedol Blaenau Gwent

3.3 Dywedwyd bod yr Ysgrifenyddiaeth wedi cynnal ymweliad safle i Flaenau Gwent a byddai adroddiad o'r canfyddiadau yn cael ei gyflwyno yng nghyfarfod mis Hydref.

Caffael Cynaliadwy

3.4 Roedd y fenter yn parhau gyda Buddsoddwyr mewn Pobl yn cael eu mabwysiadu a phob aelod staff yn mynychu hyfforddiant Caffael Cynaliadwy.

4. AROLWG CYMUNEDOL PELLACH WRECSAM

4.1 Nododd y Comisiwn fersiwn derfynol Adroddiad a Chynigion arolwg cymunedol pellach Wrecsam a chytuno arnynt. **Cytunwyd** y byddai'r adroddiad yn cael ei gyhoeddi cyn gynted ag y bo modd.

5. AROLWG O GANLYNIADAU ETHOLIADAU CYNGHORAU CYMUNED 2008

5.1 Dywedodd yr Ysgrifennydd ei fod wedi cynnal yr arolwg hwn ar ôl yr etholiadau llywodraeth leol diwethaf. Wrth ei gymharu ag arolwg 2004 o ganlyniadau etholiadau cynghorau cymuned (ar ôl ystyried unrhyw leihad yn nifer y seddau), nodwyd y canlynol:

- Roedd nifer y seddau lle nad oedd cystadleuaeth wedi aros yr un faint; ac
- Nid oedd newid yn nifer y seddau gwag.

5.2 **Cytunwyd** y dylid trafod canfyddiadau'r arolwg yng nghyfarfod yr Aelodau gyda Gweinidog Llywodraeth Cynulliad Cymru. **Cytunwyd** y byddai'r Ysgrifennydd yn ymgorffori'r adroddiad arolwg mewn llythyr i'w anfon at y Gweinidog cyn y cyfarfod.

5.3 Dywedodd yr Ysgrifennydd ei fod wedi cytuno darparu copi o ganfyddiadau'r arolwg i'r Comisiwn Etholiadol a'u bod hwy wedi cytuno hefyd i ddarparu'r wybodaeth gywerth o ran etholiadau awdurdodau unedol yng Nghymru i'r Comisiwn. **Cytunwyd** anfon copi o'r arolwg, er gwybodaeth, at bob prif weithredwr a swyddogion cofrestru etholiadol yr holl awdurdodau lleol, Un Llais Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, a byddent yn cael gwybod am fwriad y Comisiwn i dynnu sylw'r Gweinidog ato.

6. UNRHYW FATER ARALL

6.1 Gofynnwyd i'r Comisiwn gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy am estyn y terfyn amser ar gyfer cynrychiolaethau ar gyfer arolwg Cymunedol Conwy tan ddiwedd

mis Tachwedd. Roedd y Comisiwn o'r farn y byddai'n rhaid iddynt ystyried y cynrychiolaethau yng nghyfarfod mis Tachwedd ac felly ni fyddai modd estyn y terfyn amser tan ddiwedd y mis hwnnw. **Cytunwyd** y gellid estyn y terfyn amser tan ddiwedd wythnos gyntaf mis Tachwedd ac y byddai hyn wedyn yn caniatáu amser i'r cynrychiolaethau gael eu paratoi ar gyfer y cyfarfod ym mis Tachwedd. Cytunwyd rhoi gwybod i Gyngor Conwy am ddyddiad diwygiedig y terfyn amser.

7 DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

7.1 Cytunwyd ar y dyddiadau ar gyfer cyfarfodydd yn y dyfodol fel a ganlyn:

Dydd Mercher 15 Hydref 2008 am 3:00 p.m.
Dydd Mercher 26 Tachwedd am 10:45 a.m.